| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **18 Gorffennaf 2024** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | **Cynghorydd Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol/Ann Lloyd, Pennaeth Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Ann Lloyd, Pennaeth Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Ann Lloyd, Pennaeth Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd/ Nick Bowles, Rheolwr Gwasanaethau Gweithredol** |
| **Teitl** | **Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2023/ 2024 Cefndy** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar berfformiad Cefndy yn ystod 2023/ 2024, gan gynnwys cynnydd yn erbyn amcanion ariannol, busnes a lles cymdeithasol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu adroddiad yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad Cefndy yn ystod blwyddyn ariannol lawn 2023 / 2024.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn dadansoddi perfformiad Cefndy mewn perthynas â'i amcanion ariannol, amcanion busnes ac amcanion lles cymdeithasol yn ystod 2023/2024 a chraffu lle bo'n briodol.

# 4. Manylion yr adroddiad

**Perfformiad Ariannol**

4.1. Cyfanswm incwm Cefndy ar gyfer y flwyddyn ariannol oedd £3,286,718. Mae hyn yn cynnwys incwm o werthiannau a oedd yn £3,054,694, cyllid gan yr Adran Gwaith a Phensiynau o £122,915 a ffi rheoli GWICES' (Gwasanaeth Offer Cymunedol Integredig Gwent Gyfan) a oedd yn £109,109; mae cyfanswm incwm wedi cynyddu £38,654 neu 1.2% ers 2022/ 2023.

4.2. Roedd gan Cefndy cyfanswm cyllideb refeniw net sy'n £88,977 (£79,000 cyllideb lonydd + £9,977 trosglwyddiad ariannol yn ystod y flwyddyn gan Wasanaethau Eiddo i ariannu amrywiaeth o waith cynnal a chadw i'r adeilad). Roedd gwariant net yn ystod y flwyddyn yn £2,312 ac wedi arwain at danwariant o £86,665 a drosglwyddwyd i Gronfa Wrth Cefn Cefndy i liniaru yn erbyn unrhyw bwysau ariannol yn y dyfodol ac i ariannu unrhyw gostau cynnal a chadw eraill.

4.3. Roedd costau gweithredu Cefndy yn gyffredinol yn unol â'r disgwyliad. Bob blwyddyn rydym wedi gweld cost gwerthiannau yn erbyn niferoedd staff yn gwella. Yn ystod 2011/12 roedd 60 yn y tîm staff a chostau gwerthiannau fesul swydd Cyfwerth â Llawn Amser yn £60,000 yn 2022/2023, roedd 33 o staff cyfwerth â llawn amser a chost gwerthiannau i bob swydd Cyfwerth â Llawn Amser wedi cynyddu i £90,000.

4.4. Roedd costau yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i brosesau AD sydd wedi'u cwblhau oddeutu £90,000. Ni ddylai costau o'r fath godi wrth symud ymlaen.

**Perfformiad Busnes**

4.5. Yn 2023/ 2024 gwelwyd marchnad Cymhorthion i Fywyd Bob Dydd yn setlo yn dilyn cyfnod Covid a oedd yn eithaf heriol. Fodd bynnag, nododd Cefndy eu bod yn teimlo effaith pwysau ariannol gofal cymdeithasol gydag Awdurdodau Lleol ar draws y DU. Mewn sefyllfaoedd lle roeddem yn gweithio'n uniongyrchol gyda gwasanaethau cyfarpar cymunedol yr Awdurdod Lleol, gwelwyd bod archebion yn arafu ac roedd eraill yn canslo eu harchebion.

4.6. Rydym wedi gweld gostyngiad yng nghost nwyddau sy’n cael eu mewnforio o’r Dwyrain Pell ers pandemig Covid, mae hyn yn debygol o effeithio ar brisiau yn y tymor canolig sydd yn cael eu lliniaru gan weithgareddau gwella parhaus.

4.7. Yn ystod y flwyddyn, mae Cefndy wedi cynyddu eu brand o fod yn wneuthurwr Cymreig a’u gwerth cymdeithasol drwy fod yn fusnes a gefnogir sy’n cyflogi pobl anabl. Roedd hyn yn seiliedig ar adborth gan un o’u cwsmeriaid mwyaf a oedd yn teimlo bod Cefndy wedi colli cyfle, hyd yma mae’n anodd gweld yr effaith mae wedi’i gael, ond mae hyn yn cael ei fonitro drwy ymgysylltu â’n cwsmeriaid a chyflenwyr.

4.8. Yn sgil heriau sylweddol yr oedd Cefndy yn ei wynebu o ddiwedd 2019 a thrwy gydol pandemig Covid, mi wnaeth eu statws Sefydliad Rhyngwladol er Safoni (ISO) ddod i ben. Mae llawer o waith wedi’i gyflawni i symleiddio’r prosesau, defnyddio system FactoryMaster a gwella ansawdd a phrosesau gwelliant parhaus sydd wedi arwain at ailsefydlu achrediad ISO9001.

**Perfformiad Lles Cymdeithasol**

4.9. Eleni mae dau aelod o dîm Cefndy sydd wedi gwasanaethu am amser hir wedi gadael drwy gynllun ymadael gwirfoddol y Cyngor, ac mae hyn wedi rhoi cyfle ar gyfer datblygu. Mae un aelod o staff a ymunodd â Chefndy yn 21 oed ar swydd Gradd 1, ac 17 mlynedd yn ddiweddarach mae’r unigolyn hwnnw ar swydd gradd 8 gyda chyfrifoldeb sylweddol. Yn ogystal mae cyfle arall sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a fydd yn galluogi rhywun i ddatblygu i swydd Arweinydd Tîm.

4.10. Mae’r gwasanaeth hefyd yn edrych ar gynllunio olyniaeth, ac rydym yn ystyried sut byddwn yn datblygu unigolion ein hunain i allu weldio. Bydd trafodaeth yn cael ei chynnal gyda’r coleg sydd wedi agor adran beirianneg newydd drws nesaf i Genfdy yn ddiweddar.

4.11. Mae Cefndy yn parhau i gefnogi gweithlu ehangach gyda chefnogaeth ychwanegol yn cael ei rhoi i staff anabl fel rhan o fusnes a gefnogir. Er bod nifer y saff wedi lleihau, mae gan 73% o’r grŵp staff anabledd ac mae 3 aelod o staff gyda dros 40 mlynedd o wasanaeth.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae Cefndy yn cyfrannu at Sir Ddinbych Ffyniannus trwy roi cyfleoedd cyflogaeth â chymorth i bobl anabl leol a fyddai fel arall yn ei chael yn anodd dod o hyd i waith.

5.2. O ran yr aelodau staff anabl yng Nghefndy, mae cymorth ychwanegol ac addasiadau rhesymol wedi'u gwneud i'w galluogi nhw i gyflawni eu swyddi. Trwy fod yn gyflogwr cefnogol mae Cefndy yn cyfrannu at Sir Ddinbych Iachach, Hapus, Gofalgar, gan ddatblygu gwytnwch, cynnal lles a rhoi cyfleoedd gwaith go iawn i bobl.

5.3. Rydym ni'n cefnogi datblygiad aelodau staff ac yn ceisio dyrchafu'n fewnol pryd bynnag y bo modd er mwyn cadw'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sydd wedi'i roi i'r tîm. Mae llawer o'n tîm rheoli wedi cael cefnogaeth i ddysgu a datblygu yn eu swyddi, gan eu galluogi nhw i wneud cais am swyddi ar radd uwch, gan gyfrannu at Sir Ddinbych sydd yn Dysgu a Thyfu.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Roedd gwariant net Cefndy ar gyfer y flwyddyn ariannol net 2023/24 yn £2,312 yn erbyn Cyllideb Refeniw £88,977, a arweiniodd at danwariant o £86,665, a drosglwyddwyd i gronfa wrth gefn Cefndy.

6.2. Mae costau gweithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cynnwys oddeutu £90,000 oherwydd prosesau AD, gan nodi posibilrwydd i Gefndy gynnal ar sail cost niwtral heb gyllideb refeniw.

6.3. Mae gwaith ailwampio ar system goleuadau mewnol yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd yng Nghenfdy, a bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar allyriadau carbon.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad o'r effaith ar les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni chyflawnwyd unrhyw ymgynghoriad.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw effaith ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn. Mae cynnydd da wedi'i wneud i symleiddio prosesau a lleihau costau gweithredol. Mae'r arian dros ben yn ystod y flwyddyn yn 2023/24 wedi'i roi o'r neilltu mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i liniaru yn erbyn pwysau ariannol yn y dyfodol ac i ariannu unrhyw gostau gwaith cynnal a chadw eraill.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae amodau marchnad yn parhau i fod yn anwadal; fodd bynnag, mae gwerthiannau wedi parhau yn sefydlog dros gyfnod o 3 blynedd ar oddeutu £3 miliwn, ac mae costau gweithredol wedi lleihau a disgwylir y byddant yn lleihau ymhellach yn 24/25.

10.2. Mae risgiau yn cynnwys sylfaen cwsmeriaid craidd Cefndy (yr Awdurdodau Lleol naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) yn parhau dan bwysau ariannol yn y tymor canolig, ac mae costau cludo yn parhau yn anwadal oherwydd heriau byd-eang sydd yn effeithio ar gostau cadwyn cyflenwi ac amseroedd arweiniol.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Caiff pwerau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â'r mater hwn eu nodi yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor.